CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 10fed Chwefror 2025
Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 10th February 2025

Yn Bresennol/Present:
Cynghorwyr/Councillors Beth Davies, Elen Grantham, Gethin Jones, Sue Lloyd, Eifion Rees, Ben Scott Jones a/and Chynghorydd Sir De Llandysul / County Councillor Llandysul South Keith Evans a/and Chynghorydd Sir Gogledd Llandysul a Throedyraur/ County Councillor Llandysul North Troedyraur Maldwyn Lewis
Ymddiheuriadau/Apologies Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Gynghorwyr Andrew Howell, Heddwen Davies ac Eileen Curry / Apologies for absence were received from Cllrs Andrew Howell, Heddwen Davies and Eileen Curry.

Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. / No decleration of interest was received.

Adroddiad/Report

Cafwyd adroddiad gan PCSO Anwen Davies 8176, yn rhoi diweddariad am y Troseddau a'r Digwyddiadau yn ardal y Cyngor. / A report was received from PCSO Anwen Davies 8176 providing a Crime and Incident Update for the Councils area.
Isod, gweler rhestr o'r troseddau / digwyddiadau a adroddwyd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân a Chapel Dewi. Mae ward Tre-groes wedi ei chynnwys yn adroddiad Pontsiân a Chapel Dewi / Below is a list of crimes / incidents that were reported within Llandysul town, Pontsian and Capel Dewi wards. Tregroes Ward is included in the Pontsian and Capel Dewi wards.

Adroddiad January/Ionawr Report
Adroddwyd am 25 trosedd yn Ward Tref Llandysul, 7 pryder diogelwch y cyhoedd a lles, a 2 adroddiad traffig ac 1 ymddygiad gwrthgymdeithasol, 3 trosedd a 4 adroddiad trafnidiaeth yn ward Pontsiân a Chapel Dewi ym mis Ionawr. / 25 crimes were reported in Llandysul Town Ward, 7 public safety and welfare concerns, and 2 traffic reports and 1 anti social behaviour 3 crimes and 4 transport reports in Pontsian and Capel Dewi ward in January.

Ward Tref Llandysul Town Ward
Trosedd – Domestig /– Domestics - 7
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harassment - 2
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Difrod Troseddol/Criminal Damage – 10
7 adroddiad am ddifrod i gerbydau wedi'u parcio, ymchwiliad llwyddiannus ac arestiwyd un unigolyn / 7 reports of damage to parked vehicles successful investigation one person arrested.
1 adroddiad am ddifrod i ffenestr eiddo / 1 report damage to property window
2 adroddiad am graffiti / 2 report of graffiti
Trosedd - Ymosodiad /Crime- Assault - 4
Y partïon yn hysbys / Parties known – 3

Y partïon yn anhysbys / Parties not known - 1
Trosedd Twyll/Crime Fraud – 1
Ni chollwyd arian / No money lost
Trosedd – Anrhefn / Crime – Disorder – 1
Adroddiad am anrhefn yn y dref, gwelwyd dyn yn gweiddi ac yn difrodi cerbydau / Report of disorder in town, male seen shouting and damaging vehicles.
Pryderon Diogelwch y Cyhoedd a Lles / Public Safety and Welfare Concerns – 7
Troseddau Traffig – 2 adroddiad / Traffic Offences – 2 reports
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – 1 adroddiad am gerddoriaeth uchel / Antisocial Behaviour – 1 report of loud music

Ward Pontsiân a Chapel Dewi / Pontsian and Capel Dewi Ward
Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harassment - 2
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Difrod Troseddol/Criminal Damage – 1
Difrod i gyflenwad trydan/ Damage to electric supply
Trafnidiaeth / Transport – 4
Tywydd gwael, llifogydd a choed wedi cwympo / Poor weather conditions flooding and trees down

Adroddodd y PCSO bod mwy o ddifrod wedi cael ei achosi yn y parc wrth i'r ffens a'r biniau gael eu fandaleiddio. Roedd y toiledau yn Llandysul wedi cael eu difrodi hefyd, gan arwain at orfod cau'r toiledau. Cafwyd e-bost gan y Cyngor Sir yn esbonio eu bod wedi cael cyfarwyddyd gan yr heddlu i'w cadw ar gau nes iddynt orffen eu hymchwiliad. Yna, bydd yn rhaid i'r gwasanaeth glanhau asesu'r difrod.
The PCSO reported that there had been more damage in the park with vandalization of the fence and litter bins. The toilets in Llandysul had also been damaged resulting to the closure of the toilets. An email had been received from the County Council explaining that they have been instructed by the police to keep closed the toilets closed util they have finished with their investigation. Cleaning services will then have to assess the damage.

Roedd y clerc wedi cysylltu â'r PCSO i holi a oedd yr holl ddamweiniau ffyrdd a adroddwyd wedi digwydd o ganlyniad i'r amodau gwael ar y ffyrdd, a chadarnhawyd bod y damweiniau o ganlyniad i'r tywydd yn bennaf, gan arwain at amodau gwael ar y ffyrdd. Gofynnwyd i'r PCSO ychwanegu enw ward Tre-groes i'r adroddiad am wardiau Capel Dewi a Phontsiân.
The clerk had contacted the PCSO to ask if all the traffic collisions reported were due to poor road conditions and it was confirmed that the collisions were mostly due to the weather resulting in poor road conditions. The PCSO was requested to add the Tregroes ward name to the Capel Dewi and Pontsian wards report.

Cofnodion/Minutes
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 13/01/25, ar ôl newid y geiriad yn y cyfieithiad Cymraeg i 'rhoi nôl yn ei le' yn y cofnod am faterion Ward Capel Dewi. / Minutes of monthly meeting held on 13/01/25 were confirmed following changing the welsh translation to 'rhoi nol y ei le' in the Capel Dewi Ward matters.

Materion yn Codi: -

Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â Rhodri Thomas unwaith eto ynghylch y gysgodfan fysiau yng Nghapel Dewi.

Penderfynwyd y dylai'r clerc ofyn am ddiweddariad am y biniau halen a fydd yn cael eu lleoli wrth fynedfa Y Ffawydd a Pharc yr Ynn, yn ogystal â'r ddau fin halen a archebwyd eisoes ar gyfer Ward Capel Dewi.

Bydd y clerc yn cysylltu â Chyngor Ceredigion unwaith eto gan na fu unrhyw hysbysiadau am geisiadau cynllunio am y carafannau statig sydd wedi ymddangos ym Mhontsiân, gan ofyn am ddiweddariad a nodi bod sied yn cael ei hadeiladu yn yr un lleoliad nawr.

4) Ceisiadau Ariannol:

Eisteddfod Capel y Fadfa Talgarreg
Cafwyd cais ariannol gan Eisteddfod Capel y Fadfa. Penderfynwyd cefnogi'r Eisteddfod a rhoi £150.

Ambiwlans Awyr Cymru
Cafwyd cais am rodd o £200. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

5) Materion i'w Trafod

Gwasanaeth casglu Sbwriel Tirdref / Parc Coffa
Roedd y clerc wedi cael dyfynbris gan LAS i gasglu'r sbwriel yn y parc, fel a ganlyn:-
1 x 240ltr Gwastraff Cyffredinol:
£9.50 y casgliad yn seiliedig ar 30 cilogram ac £0.20 fesul cilogram dros ben
£0.10 – rhent dyddiol
Byddent yn cael eu gwagio bob wythnos
Penderfynwyd y dylai'r clerc gael trafodaethau pellach gyda LAS oherwydd y bydd gofyn cael mwy nag un bin. Nodwyd hefyd nad oes angen gwagio'r biniau bob wythnos yn ystod y gaeaf, ond bod gofyn cael casgliad wythnosol rheolaidd yn ystod misoedd yr haf.

Lle Chwarae Plant Llandysul

Matters Arising: -

It was decided that the clerk contact Rhodri Thomas again with regards to the Bus Shelter at Capel Dewi.

It was decided that the clerk ask for an update regards the grit bins that are to be located at the entrance of The Beeches and Parc yr Ynn as well as the two grit bins already ordered for the Capel Dewi Ward.

Clerk to contact Ceredigion Council again as there have been no planning application notices for the static caravans that have appeared in Pontsian for an update and to advise that a shed is now being constructed at the same location.

4) Funding Applications:

Eisteddfod Capel y Fadfa Talgarreg
A request for funding was received from
Eisteddfod Capel y Fadfa. It was decided to support the Eisteddfod and donate £150.

Wales Air Ambulance
A request for a donation of £200 was received. It was decided to donate the requested amount.

5) Matters for Discussion

Memorial Park / Tirdref Refuse collection service
The clerk had received a quotation from LAS to collect the refuse in the park as follows:-
1 x 240ltr General Waste:
£9.50 per collection based on 30kg and £0.20 excess per Kg
£0.10 daily rental
Emptied weekly
It was decided that the clerk liaise further with LAS as more than one bin will be required. It was also noted that the bins do not require to

Ni chafwyd dyfynbrisiau pellach er mwyn gosod pren newydd yn y parc. Bydd y clerc yn rhoi sylw i'r mater.

Materion Ward Brys

Capel Dewi
Hysbyswyd y Cynghorwyr gan Gynghorydd Douglas Davies o'r ffaith bod angen gosod arwyneb newydd ar y ffordd ar y sgwâr yng Nghapel Dewi. Adroddwyd hefyd bod Cwm Tegryd yng Nghapel Dewi wedi cael ei brynu am swm is gan ei fod yn cael ei osod yn ystod yr haf, ond adroddwyd bod pobl yn byw yno yn barhaol. Penderfynwyd tynnu sylw y Cyngor Sir at y materion uchod.

Llandysul
Mae sedd wag ar y Cyngor o hyd ar gyfer Ward Tref Llandysul. Penderfynwyd cadw'r mater ar yr agenda nes y llenwir y sedd.

Adroddodd Cynghorydd Eifion Rees bod twll yn y ffordd ger hen fanc Barclays. Bydd y clerc yn adrodd am hyn i'r Cyngor Sir.
Cafwyd copi o'r Cynlluniau Bro.
Penderfynwyd rhoi copi ar Wefan y Cyngor.
Esboniodd Cynghorydd Keith Evans bod angen symud 2 o declynnau derbyn wi-fi y dref o'r adeilad lle y mae Dai Lewis ar hyn o bryd gan bod y busnes yn symud, ac y bydd hyn yn costio tua £800. Bydd Llandysul a Phont Tyweli Ymlaen yn cysylltu â busnesau eraill er mwyn ceisio cael lleoliad addas i osod y teclynnau. Mae'r cynllun yn rhan o fenter Trefi Smart a gynhelir ar draws holl Drefi Ceredigion. Gan ymateb i gwestiynau amrywiol a ofynnwyd, cadarnhaodd Cynghorydd Keith Evans y byddai'n ymchwilio i'r materion a godwyd cyn bwrw ymlaen gyda'r gwaith. Cytunodd y Cyngor symud ymlaen yn unol â'r trefniant hwn er mwyn sicrhau bod amcanion Trefi Smart yn parhau yn y dref.

Adroddiad gan Gynghorwyr Sir
Cafwyd gohebiaeth ar ffurf neges e-bost yn ôl y gofyn, yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am weithgareddau Cynghorydd Keith Evans, ward De Llandysul yn ystod y cyfnod rhwng 13 Ionawr 2025 a 9 Chwefror 2025, ac fe'i be collected on a weekly basis during the winter period, but a regular weekly collection was required over the summer months.

Llandysul Children's Play area
Further quotes for replacing timber in the park had not been received. The clerk to pursue the matter.

Urgent Ward Matters

Capel Dewi
Cllr Douglas Davies informed the Councillors that the surface of the road on the square in Capel Dewi required re-surfacing. It was also reported that Cwm Tegryd in Capel Dewi had been purchased at a reduced price as it was a summer let, but it had been reported that people were living in it permanently. It was decided to draw the above matters to the attention of the County Council.

Llandysul
There is still a vacant seat on the Council for the Llandysul Town Ward. It was decided to keep it on the agenda until the position is occupied.

Cllr Eifion Rees reported a pothole in the vicinity of the former Barclays Bank. The clerk to report this to the County Council.
A copy of the Place Plans had been received. It was decided to put a copy on the Councils Website.
Cllr Keith Evans explained that there was a need to re-locate 2 of the towns wi-fi receivers' from the building occupied by Dai Lewis due to relocation of the business at a cost of circa £800. Llandysul Pont Tyweli Ymlaen will undertake liaison with other businesses to address a suitable location to relocate the receivers. The scheme is part of the Smart Towns initiative running in all Ceredigion Towns. In response to various questions posed, Cllr Keith

nodwyd.

Gohebiaeth
Cafwyd Clerks and Councils Direct a nodwyd hynny.

Anfonwyd neges e-bost ymlaen at yr holl Gynghorwyr i'w hatgoffa o'r hyfforddiant am y Cod Ymddygiad a gynhelir gan bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion, gyda chymorth Swyddog Monitro Ceredigion, ar 11/02/25. Bydd y clerc yn anfon y ddolen ymlaen at yr holl Gynghorwyr.
Anogwyd yr aelodau i fynychu ac adrodd yn ôl i'r clerc os byddant yn gwneud hynny, fel bod modd cofnodi hynny yn ffeil hyfforddiant y Cyngor Cymuned.

Cynllunio

Nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio.

Gwybodaeth Ariannol

Llinos Jones – Ysgrifennwyd siec am y swm o £101.06 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Ionawr.
Tom Cowcher– Ysgrifennwyd siec am y swm o £357 i Tom Cowcher am logi llwythwr telesgopig ar gyfer y cynllun goleuadau Nadolig.

Evans confirmed that he would investigate the issues raised before proceeding with the work. Council agreed to proceed on this basis to ensure the town had continuity of the Smart Towns objectives.

Report by County Councillors
E-mail correspondence was received as requested providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 13 January 2025 to 9 February 2025 and noted.

Correspondence
Clerks and Councils Direct were received and noted.

An email had been forwarded to all Councillors to remind them of the Code of Conduct training to be held by Ceredigion's Ethics and Standards committee with support of Ceredigion's Monitoring Officer. on the 11/02/25. The clerk to forward the link to all Councillors.
Members were encouraged to attend and report back to clerk if they had attended so that it could be recorded on the Community Council training file.

Planning

There were no planning applications.

Financial Information

Llinos Jones – Cheque for £101.06 was written for January translation.
Tom Cowcher– A cheque was written for £357 to Tom Cowcher for hire of telehandler in conjunction with the Christmas festive lighting scheme.

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

		£ c/£ p	*Rhif siec/ Cheque number*
Capel y Fadfa	Rhodd/Donation	150.00	001305
Welsh Air Ambulance	Rhodd Donation	200.00	001306
Llinos Jones	Cyfieithu/Translation	101.06	001307
Tom Cowcher	Golau Nadolig/Xmas Lights	357.00	001308
Nia Davies	Cyflog y Clerc	633.07	001309
HMRC	Cyflog y Clerc	158.20	001310